

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS FAWRTH 10FED O FEDI 2019 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.45 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Arwel Jones (Cadeirydd), Ian Hession, Siân Davies, Mike Denman, Iona Jones, Brynle Lloyd, Clwyd Thomas a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Dewi Roberts, Wyn Wilkinson a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 9fed o Orffennaf 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych fydd gost o'r arwydd "Llanynys" wrth Wyrain yn Llanynys yn oddeutu £250.00. Penderfynwyd yr aelodau i brynu'r arwydd.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc £15,491.00.

B. Derbyniwyd ail ran 2019/2020 Precept y Cyngor £3,150.00.

C. Penderfynwyd yr aelodau i dalu'r biliau canlynol:-

1. Hunphreys Signs o Ddinbych am gostau'r arwyddion "Diffibrilydd" yn y cyn Bocs Ffon yn Llanynys £141.60.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2019 £400.00.

3. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2019.

6. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais 24/2019/0607: Codi storfa ardd/tŷ haf unllaw'r yn Stone Barn (Plas Isa' gynt), Rhewl - dim gwrthwynebiad.

B. Cais 24/2019/0679: Adleoli mynediad presennol i'r cae yn Haulfryn, Llanynys - dim gwrthwynebiad.

C. Cais 24/2019/ 0585: Addasu garej ddomestig i ystafell arddio gydag estyniad cyswllt ar gyfer defnydd achlysurol gyda'r annedd bresennol (cynllun diwygiedig) yn Glanynys Bach, Llanynys - di, gwrthwynebiad.

D. Cais 24/2019/0687: codi estyniad ystafell ddosbarth/ystafell gyfarfod ar y llawr gwaelod i'r prif floc gweinyddol ac estyniad llawr cyntaf uwchben i ddarparu storfa. Dymchwel adeilad hyfforddi a chodi bloc hyfforddi unllaw'r. Codi adeilad hyfforddi deulawr gyda gantry gwyllo uwchben gan gynnwys ystafell storio yn Craig-y-Ddywart yn Rhewl - Yr unig sylwadau'r aelodau oedd gwneud yn sicr fod y datblygiad o dan sylw ddim yn creu ychwaneg o sŵn ynghyd ar amserlen saethu ar traffic.

7. CYNLLUN DDATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033 - YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y STRATEGAETH A FFAFRIR DRAFFT.

A. Llanynys - Tir wrth Glyn Castell - dim gwrthwynebiad.

B. Tiroedd yn Rhewl:-

1. Cae Stesion.
2. Hen Gae Mefus.
3. Tir ger Rhyd-y-Byll.
4. Tir yng nghefn Llwyn Ceirios.

Gwrthwynebwyd yr aelodau'r ceisiadau tiroedd yn Rhewl oherwydd:-

- 1: Mae'r ysgol Gynradd y pentref wedi cau.
2. Mae'r Eglwys y pentref wedi cau.
3. Mae'r garthffosaeth yn llawn yn barod.
4. Ni does yna unrhyw wasanaethau yn y pentref.
5. Mae'r ffyrdd lleol ddim gallu cymered ychwaneg o drafndiaeth.

8. GOHEBIAETH.

A. Mae'r ffurflen geisiadau am grantiau ariannol Fferm Wynt Brenig ar gael bellach gyda'r diwrnod cau am geisiadau ar 11eg o Dachwedd 2019.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Cyflwr gwarthus Bwthyn Bachymbyd hyd at Bentref Bontuchel sydd yn cynnwys darn o wal wedi terfyn cae sydd wedi dymchwel i'r ffordd.

B. Cyflwr gwarthus Ffordd y Stesion yn Rhewl.

C. Mi roedd torri'r cloddiau'r gymuned mor warthus ym mis Awst mae angen toriad ychwanegol bellach.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 12fed o Dachwedd 2019 yn Y Pafiliwn, Rhewl am 7.30 o'r gloch.